

CITY WITNESS

## DARGANFOD ABERTAWE YN Y CANOL OESOEDD

Dewch i ddarganfod etifeddiaeth ganoloesol Abertawe, sy'n gyfoethog ac yn hynod ddiddorol – ond sy'n aml ynghudd. Archwiliwch yr 17 nod palmant, sy'n dangos nodweddion a lleoliadau yn y dref ganoloesol, neu dilynwch ein taith o amgylch 6 o'r uchafbwyntiau.

CITY WITNESS

## DISCOVER MEDIEVAL SWANSEA

Discover the rich and fascinating – but often hidden – medieval heritage of Swansea. Explore the 17 pavement markers showing features and locations in the medieval town, or follow our tour of 6 highlights.

The hanging of William Cragh in Swansea in 1290 was witnessed by 9 local people, whose testimonies survive in a Vatican Library manuscript. John ap Hywel, a local labourer, watched the hanging from a square near the church. Lady Mary de Briouze prayed for Cragh in her chamber in the New Castle – why? And Adam of Loughor, aged only 13 at the time, reported that he was too scared to touch Cragh's body when it was laid out in the house of a local man. But Cragh came back to life. Was it a miracle? Discover more at www.medievalswansea.ac.uk.

Tystiodd 9 person lleol i grogi William Cragh yn Abertawe yn 1290, ac mae eu tystiolaeth yn goroesi mewn llawysgrif yn Llyfrgell y Fatican. Bu John ap Hywel, labrwr lleol, yn gwylio'r crogi o sgwâr ger yr eglwys. Bu'r Arglwyddes Mary de Briouze yn gweddïo dros Cragh yn ei siambr yn y Castell Newydd – pam? Ac yn ôl Adam o Lwchwr, nad oedd ond 13 oed ar y pryd, roedd yn rhy ofnus i gyffwrdd â chorff Cragh pan gafodd ei roi i orwedd yn nhŷ dyn lleol. Ond daeth Cragh yn fyw unwaith eto. Ai gwyrth oedd hon? Dewch i ddarganfod mwy yn www.medievalswansea.ac.uk.



Stone head, supposedly of Alina de Mowbray (Swansea Museum).

Pen carreg, y tybir ei fod yn portreadu Alina de Mowbray (Amgueddfa Abertawe).



British Library MS Royal 6 E VI f. 444



Impression of the view up Wind Street, towards the Castle (Lorenzo Caravaggi).

Argraffiad o'r olygfa ar hyd Stryd y Gwynt, i gyfeiriad y Castell (Lorenzo Caravaggi).

Further resources, including interactive maps and views, medieval texts, a game and multi-media tours are available at www.medievalswansea.ac.uk.

Mae adnoddau pellach, gan gynnwys mapiau rhyngweithiol a golygfeydd, testunau canoloesol, gêm a theithiau amlgyfrwng ar gael yn www.medievalswansea.ac.uk

Queen's University Belfast
Arts & Humanities Research Council
swansea museum amgueddfa abertawe
City and County of Swansea Dinas a Sir Abertawe
King's College London Digital Humanities
University of Southampton

## THE HIGHLIGHTS

### 1. New Castle (marker 4)

The ruins of Swansea Castle are the most striking reminder of the city's medieval heritage. This is actually the 'New' Castle, built in the late 13th century to replace the 'Old' Castle (founded around 1106) nearby. The castle displayed the power and status of the Anglo-Norman de Briouze family, who ruled Swansea and the Marcher Lordship of Gower. The Welsh rebel William Cragh was held in the dungeon here in 1290, before being hanged on Gibbet Hill (North Hill today). But Cragh mysteriously came back to life, leading local people to claim that a miracle had occurred…

### 2. Strand (marker 13)

Standing here in the Middle Ages, with the castle rising steeply behind you, you would have been at the very edge of the River Tawe. The river was much wider in the medieval period, before a new channel was cut in the 19th century. The area below you (where the footbridge runs across to the retail park) would have been under water! Here you would have been in the midst of a bustling harbour, with boats unloading their wares and coming in for repair.

### 3. Market place (marker 15)

Swansea's main market place was held at the top of Wind Street. Food, clothes and household items would be traded here. Archaeological finds show that fine imported wine was drunk in Swansea in the Middle Ages. Trade in leather and hides was also an important part of the local economy. At the bottom of Wind Street, the South Gate led out to marshland and a ferry across the Tawe.

### 4. St David's Hospital (marker 17)

Now the Cross Keys Pub, St David's Hospital is another of Swansea's visible medieval buildings. Founded in 1332, it housed elderly and infirm clergy and laymen, and included residential areas, a communal hall and a garden. Like the New Castle, St David's Hospital is a rare survival of the city's medieval past. Many of Swansea's historic buildings, and the lay-out of its medieval streets, were destroyed in the Three Nights Blitz of 1941 – as well as in the subsequent clearing and re-development of the city centre.


### 5. St Mary's Church (marker 12)

St Mary's was the parish church of medieval Swansea. The church was probably first built in the 12th century, and remodelled in 1739, though it was almost completely destroyed in the Blitz and the present building dates from the 1950s. A carved stone head was here in the late 19th century, believed to show Lady Alina de Mowbray, daughter of William de Briouze, Lord of Gower. Alina, who died in 1331, led a life full of turmoil, intrigue and danger, and today her ghost is said to haunt Oystermouth Castle in Mumbles.

### 6. Walls (marker 11)

Like many medieval towns, Swansea was defended with walls to protect it against attacks. The walls of medieval Swansea ran along the west and north of the town – the east was already bounded by the River Tawe and to the south lay marshland and the Cadle stream. Here, the medieval walls ran along the line of White Walls Street. Just south of here, the Wassail Gate opened out onto the road to Gower. To the north, the town's West Gate led out to the Washing Pool where townsfolk may have come to do their laundry.

1. St John's chapel
2. Gibbet Hill (view towards)
3. Old Castle
4. New Castle
5. Thomas Mathews' house (typical burgess' house)
6. The Dungeon
7. West Gate
8. North Gate
9. East Gate
10. South Gate
11. Town Walls
12. St Mary's Church
13. Strand
14. Wassail Gate
15. Market Place
16. High Street
17. St David's Hospital




## YR UCHAFBWYNTIAU

### 1. Castell Newydd (nod rhif 4)

Adfeilion Castell Abertawe yw'r peth mwyaf trawiadol sy'n ein hatgoffa am etifeddiaeth ganoloesol y ddinas. Mewn gwirionedd, hwn yw'r Castell 'Newydd', a godwyd yn niwedd y 13eg ganrif yn lle'r 'Hen' Gastell (a sefydlwyd tua 1106) gerllaw. Roedd y castell yn arwydd o bŵer a statws teulu Eingl-Normanaidd de Briouze, a oedd yn rheoli Abertawe ac Arglwyddiaeth Gŵyr yn y Mers. Cafodd y gwrthryfelwr o Gymro, William Cragh, ei gadw yn y ddaeargell yma yn 1290, cyn ei grogi ar Riw'r Crocbren (Gibbet Hill) (Rhiw'r Gogledd heddiw). Ond trwy ryw ddirgelwch, daeth Cragh yn fyw unwaith eto, gan beri i bobl leol honni bod gwyrth wedi digwydd…

### 2. Y Strand (nod rhif 13)

Wrth sefyll yma yn y Canol Oesoedd, gyda'r castell yn codi'n serth y tu ôl y chi, buasech yn union ar lannau Afon Tawe. Roedd yr afon yn llawer lletach yn y cyfnod canoloesol, cyn i sianel newydd gael ei thorri yn y 19eg ganrif. Buasai'r ardal oddi tanoch (lle mae'r bont i gerddwyr yn arwain i'r parc adwerthu) o dan ddŵr! Yma buasech yng nghanol harbwr prysur, lle roedd cychod yn dadlwytho'u nwyddau ac yn dod i gael eu trwsio.

### 3. Y Farchnad (nod rhif 15)

Cynhelid prif farchnad Abertawe ym mhen uchaf Stryd y Gwynt, ac roedd bwyd, dillad ac eitemau i'r cartref yn cael eu masnachu yno. Dengys canfyddiadau archaeolegol fod gwin o safon, oedd wedi'i fewnforio, yn cael ei yfed yn Abertawe yn y Canol Oesoedd. Roedd masnachu lledr a chrwyn anifeiliaid hefyd yn rhan bwysig o'r economi leol. Ar waelod Stryd y Gwynt, arweiniai Porth y De allan i'r corsdir a fferi ar draws afon Tawe.

### 4. Ysbyty Dewi Sant (nod rhif 17)

Mae Ysbyty Dewi Sant, Tafarn y Cross Keys bellach, yn un arall o adeiladau canoloesol gweladwy Abertawe. Fe'i sefydlwyd yn 1332, yn gartref i glerigwyr a lleygwyr oedrannus a bregus eu hiechyd, ac roedd yn cynnwys ardaloedd preswyl, neuadd gymunedol a gardd. Fel y Castell Newydd, mae Ysbyty Dewi Sant yn enghraifft brin a oroesodd o orffennol canoloesol y ddinas. Dinistriwyd llawer o adeiladau hanesyddol Abertawe, a chynllun ei strydoedd canoloesol, yn y Blitz Tair Noson yn 1941 – yn ogystal â phan gliriwyd canol y ddinas a'i ailddatblygu wedi hynny.

### 5. Eglwys y Santes Fair (nod rhif 12)

Eglwys y Santes Fair oedd eglwys y plwyf yn Abertawe'r canol oesoedd. Fwy na thebyg, codwyd yr eglwys gyntaf yn y 12fed ganrif, a chafodd ei hailfodelu yn 1739, er iddi gael ei dinistrio bron yn gyfangwbl yn y Blitz, ac mae'r adeilad presennol yn dyddio o'r 1950au. Yn niwedd y 19eg ganrif roedd yn cynnwys pen carreg wedi'i gerfio, y credir ei fod yn portreadu'r Arglwyddes Alina de Mowbray, merch William de Briouze, Arglwydd Gŵyr. Roedd bywyd Alina, a fu farw yn 1331, yn llawn cythrwfl, cynllwynion a pherygl, a heddiw dywedir bod ei hysbryd yn cyniwair o amgylch Castell Ystumllwynarth, yn y Mwmbwls.

### 6. Y Muriau (nod rhif 11)

Fel llawer o drefi canoloesol, câi Abertawe ei hamddiffyn yn erbyn ymosodiadau gan furiau. Roedd muriau Abertawe yn y canol oesoedd yn rhedeg ar hyd ymylon gorllewinol a gogleddol y dref – roedd Afon Tawe eisoes yn darparu ffin i'r dwyrain, ac i'r de roedd corsdir a nant Cadle. Yma, rhedai'r muriau canoloesol ar hyd llinell Stryd White Walls. Fymryn i'r de oddi yma, arweiniai'r Wassail Gate i'r heol oedd yn mynd i benrhyn Gŵyr. I'r gogledd, arweiniai Porth Gorllewinol y dref i'r Pwll Golchi, a oedd o bosibl yn gyrchfan golchi dillad ar gyfer pobl y dref.

1. Capel Sant Ioan
2. Rhiw'r Crocbren (yr olygfa tuag ati)
3. Yr Hen Gastell
4. Castell Newydd
5. Tŷ Thomas Mathews (tŷ bwrdais nodweddiadol)
6. Y Ddaeargell
7. Porth y Gorllewin
8. Porth y Gogledd
9. Porth y Dwyrain
10. Porth y De
11. Muriau'r Dref
12. Eglwys y Santes Fair
13. Y Strand
14. Wassail Gate
15. Y Farchnad
16. Y Stryd Fawr
17. Ysbyty Dewi Sant